OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 193 (Cy.28)

TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*2 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*3 Chwefror 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2010*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 154(5) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002(**2**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 3(1)(a)(i), yn lle "adran 509 o Ddeddf Addysg 1996" rhodder "adrannau 3, 4 a 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008".

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

2 Chwefror 2010

(**1**) 2000 p.38. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**2**) O.S. 2002/2022 (Cy.206).